



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Cwricwlwm i Gymru Cyfres Uwch Arweinwyr – Clipiau Cryno

Arwain Newid 2





**Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia**

Dyma i chi'r ail o ddwy sesiwn ar Reoli Newid.


Awgrymwn eich bod yn gwylio Rheoli Newid 1 cyn symud ymlaen i'r sesiwn yma.

Gweithgaredd gychwynnol: Cofloedio Newid

Mae'r sesiwn yma yn cychwyn efo clip fidio fer o sgwrs TedxPerth Talk gan Jason Clarke ar sut mae pobl yn ymateb wrth geisio ymdopi efo newid. Ystyriwch y pwyntiau sydd yn cael eu gwneud gan Jason Clarke – oes rhai o'r pwyntiau yma yn berthnasol i'ch sefyllfa chi yng nghyd destun Cwricwlwm i Gymru?

Os hoffech chi wylio'r fidio yn ei chyfanrwydd – cliciwch ar y linc isod:

<https://www.youtube.com/watch?v=vPhM8IxbSU>





Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Gweithgaredd 1

Dadansoddiad Maes Grym

Dyma i chi gyfle i gydweithio er mwyn adnabod y grymoedd sydd yn gwithredu o blaid ac yn erbyn newid.

O fewn cyd destun Cwricwlwm i Gymru hoffem i chi ystyried y canlynol:

- Y grymoedd sydd yn cefnogi'r newid
- Y grymoedd sydd yn gweithredu yn erbyn y newid.

Mae cyfle hefyd i chi adnabod sut mae'n bosib lleihau effaith unrhyw un o'r rhwystrau fyddwch chi'n eu hadnabod:

Grymoedd sydd yn cefnogi gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus	Grymoedd sydd yn erbyn gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus
Sut allwn ni leihau effaith unrhyw rwystrau sydd wedi eu hadnabod?	



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol Regional School Improvement Consortia

Gweithgaredd 2

Wedi i chi wylio'r fidio gan BJ Fogg yn trafod ei fodel sydd yn nodi fod yn rhaid i 3 ffactor fod yn eu lle er mwyn sicrhau fod newid yn llwyddiannus:

- Symbyliad
- Gallu
- Cymhelliant

Yng nghyd destun diwygio Cwricwlwm i Gymru, beth yw'r rhwystr mwaf sydd yn arbed staff rhag cofleidio'r newid yma?

Yn benodol yn sgil y problemau parhaus sydd yn cael eu achosi gan Covid-19?

A yw'r rhwystrau yma yn wahanol ar gyfer unigolion gwahanol?

Sut allwn ni gefnogi ein gilydd trwy'r daith ddiwygio?



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Gweithgaredd 3: Model SCARFF

Mae posib grwpio ein hymateb i newid mewn 5 maes:

1. Colli statws – *ein safle gymdeithasol mewn perthynas ag eraill*
2. Colli sicrwydd – *ein gallu i ragdybio deilliannau*
3. Colli annibyniaeth – *ymdeimlad o reolaeth dros ein dyfodol*
4. Colli ymdeimlad o berthyn – *ydym ni'n rhan o'r grŵp, neu beidio?*
5. Colli tegwch – *ydym ni (neu eraill) yn cael ein trin mewn ffordd deg/gyfartal?*

Darllenwch trwy'r senarios isod neu ystriwch rai eich hunain.

A yw'r model SCARF yn helpu i ystyried a deall yr emosiynau sydd yn cael eu cyfeu?

Mae cyfle i chi hefyd i drafod y math o gefnogaeth sydd ei angen

Fel athro, dwi ddim yn saff iawn beth fydd effaith y MDaPh. Fydd disgwyl i i ddysgu pynciau newydd?

Cefnogaeth posib

Fel llywodraethwr, dwi'n ansicr am y newidiadau sydd yn digwydd. Dwi'n gallu gweld sut mae ysgolion eraill yn rhannu efo'r gymuned sut mae nhw'n mynd at ii ddatblygu'r Cwricwlwm newydd. Ddylwn if od yn gofyn mwy o gwestiynnau?

Cefnogaeth posib



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Fel rhiant, dwi'n ymwybodol fod y Cwricwlwm yn yr ysgol yn newid. Sut fyddwn ni'n gwybod pa mor llwyddiannus yw'r ysgol?

Possible support:

Efallai y gall yr ystryiaethau isod helpu:

COLLI STATWS

- Osgoi cyfarwyddiadau ar sut i fynd i'r afael â'r newid gan fod hyn yn awgrymu nad yw'r person cystal â chi yn gweithio hyn allan, felly rydych chi'n awgrymu bod ganddynt statws is na chi.
- Gofynnwch i'r person y mae'r newid yn effeithio arnynt sut maen nhw am fynd i'r afael â'r newid fel bod eu gallu ac felly eu statws yn cael eu parchu
- Mae pobl yn teimlo cynnydd mewn statws wrth ddysgu a gwella, felly darparwch gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol
- Darparu cyfleoedd ar gyfer cynyddu statws trwy roi cyfleoedd i arwain gwahanol gymunedau yn ystod y newid e.e. rhoi cyflwyniadau i eraill, gan ddod yn brif hyfforddwr mewn agwedd ar y newid

COLLI SICRWYDD

- Goresgyn straen yr anhysbys trwy wneud cysyniadau yn fwy eglur e.e. egluro agendâu, amcanion, cyfrifoldebau a therfynau amser
- Rhannwch waith cymhleth yn gamau bach
- Sefydlu disgwyliadau clir o'r hyn a allai ddigwydd mewn unrhyw sefyllfa yn ogystal â disgwyliadau o ganlyniadau dymunol
- Cynnwys y rhai yr effeithir arnynt mewn Asesiadau Effaith fel y gallant nodi drostynt eu hunain beth fydd yn wahanol

COLLI YMREOLAETH

- Peidiwch â rhoi cyfarwyddiadau, ond rhowch opsiynau fel y gall pobl wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â sut maen nhw'n cymryd rhan yn y newid, pa weithgareddau maen nhw'n eu gwneud, pryd a sut maen nhw'n eu gwneud
- Gofynnwch gwestiynau yn lle darparu'ch atebion fel y gall pobl greu atebion iddyn nhw eu hunain



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

COLLI'R YMDEIMLAD O BERTHYN

- Cymerwch amser i wneud cysylltiadau cymdeithasol a nodi tebygrwydd a phethau sydd gennych yn gyffredin cyn gofyn am gymryd rhan mewn newid
- Creu grwpiau bach ag amcanion penodol ar gyfer rhannu gwybodaeth, dysgu ffyrdd newydd o weithio a rhannu profiadau

COLLI TEGWCH

- Sefydlu tryloywder trwy osod rheolau, disgwyliadau neu amcanion sylfaenol clir
- Lle bo modd, gadewch i bobl gydweithredu i sefydlu'r rheolau, y disgwyliadau neu'r amcanion hyn



**Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia**

Gweithgaredd 4: Model Knoster o reoli newid cymhleth.

Trafodwch y model isod yng nghyd-destun sut mae eich hysgol yn paratoi ar gyfer y diwygio:

Gweledigaeth	Sgiliau	Cymhelliant	Adnoddau	Cynllun Gweithredu	=	NEWID
Gweledigaeth	Sgiliau	Cymhelliant	Adnoddau	Ar Goll	=	Camgychwyn
Gweledigaeth	Sgiliau	Cymhelliant	Ar Goll	Cynllun Gweithredu	=	Rhwystredigaeth
Gweledigaeth	Sgiliau	Ar Goll	Adnoddau	Cynllun Gweithredu	=	Gwrthwynebiad
Gweledigaeth	Ar Goll	Cymhelliant	Adnoddau	Cynllun Gweithredu	=	Pryder
Ar Goll	Sgiliau	Cymhelliant	Adnoddau	Cynllun Gweithredu	=	Dryswch



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol Regional School Improvement Consortia

Darllen pellach ac adnoddau:

Os hoffech ddarllen mwy am arwain newid, isod mae rhai dolenni pellach i ddarllen ehangach.

Mae dolen hefyd i'r dudalen Taith Dysgu Proffesiynol ar Hwb sydd â chyfres o restrau chwarae o ysgolion ledled Cymru yn rhannu eu profiadau o weithio trwy newidiadau Cwricwlwm Cymru.

- Trosolwg o fodelau Rheoli Newid

<https://www.process.st/change-management-models/>

- Model Newid 8 cam Kotter

https://www.mindtools.com/pages/article/newPPM_82.htm

- Model ADKAR o newid

<https://www.prosci.com/methodology/adkar>

- Model 7 McKinsey 7s

<https://strategicmanagementinsight.com/tools/mckinsey-7s-model-framework/>

- Y daith ddysgu proffesiynol

<https://hwb.gov.wales/repository/discovery?sort=recent&catalogs=66ddc104-deea-4cfe-ab1c-9f377ce1595f&categories=38c8e647-f76c-48e8-9aed-b24736a11bcd&strict=1>

Hefyd ar gael trwy Hwb – Adnoddau – Dysgu Proffesiynol – Taith dysgu proffesiynol